# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 27 Ionawr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i’r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

2 Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

5 Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

5 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Dreftadaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

6 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Ym mha rai o raglenni Adran Prif Weinidog Cymru y bu tanwariant ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, ac o faint ym mhob achos. (WAQ55494)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Ym mha rai o raglenni Adran y Gweinidog y bu tanwariant ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, ac o faint ym mhob achos. (WAQ55496) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Ym mha rai o raglenni Adran y Gweinidog y bu tanwariant ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, ac o faint ym mhob achos. (WAQ55492) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**David Melding (Canol De Cymru):** Pa gyfraniad a fu gan y Gweinidog at y penderfyniad a wnaethpwyd gan Gyllid Cymru i agor swyddfa yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. (WAQ55482)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Mai 2010***

Mae Bwrdd Cyllid Cymru ccc, is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gyfrifol am ddatblygu cynllun Strategaeth a Busnes y cwmni, a gaiff ei gymeradwyo gan fy adran bob blwyddyn.

Rhan o'r strategaeth hon yw i Gyllid Cymru barhau â'i lwyddiant o gael enillion o fuddsoddiadau mewn busnesau yng Nghymru drwy sicrhau a rheoli cronfeydd buddsoddi ychwanegol. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig o ystyried bod cronfa JEREMIE (Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Busnesau Micro i Ganolig) yn rhoi'r gorau i fuddsoddi yn 2013/14, yn arbennig gan fod yn gronfa yn rhagori ar ei chyfradd fuddsoddi darged ar hyn o bryd.

Gan ystyried y llwyddiant hwn, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cysylltodd nifer o ranbarthau yn Lloegr â Chyllid Cymru, gan gynnwys cais gan Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol 'One North East' i gymryd rhan mewn tendr i reoli rhan o'i chronfa JEREMIE newydd. Dyfarnwyd statws cynigydd a ffefrir i Gyllid Cymru ar gyfer cronfa ecwiti gwerth £20m.

Gan gydnabod y manteision strategol ehangach a'r manteision ehangach o ran cynaliadwyedd y bydd Cymru yn eu cael, yn ôl Cyllid Cymru, o ganlyniad i'r ffaith y bydd yn gallu achub ar gyfleoedd i reoli cronfeydd masnachol, ac ar sail y ffaith na fydd unrhyw gymhorthdal gan bwrs y wlad yng Nghymru i gefnogi'r fenter hon, cymeradwyais gais gan Gyllid Cymru gan roi'r caniatâd iddynt lunio cydberthynas gytundebol â 'One North East', ar 19 Chwefror 2010.

**David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y penderfyniad a wnaethpwyd gan Gyllid Cymru i agor swyddfa yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. (WAQ55483)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Mai 2010***

Cymeradwyais weithredu'r contract i Gyllid Cymru reoli rhan o gronfa JEREMIE 'One North East' am y rhesymau a amlinellwyd yn fy ymateb i WAQ 55482.

**David Melding (Canol De Cymru)**: Beth yw manteision strategol Cyllid Cymru yn gweithredu y tu hwnt i Gymru. (WAQ55484)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Mai 2010***

Rhan o strategaeth Cyllid Cymru yw parhau â'i lwyddiant o gael enillion o fuddsoddiadau mewn busnesau yng Nghymru drwy sicrhau a rheoli cronfeydd buddsoddi ychwanegol.

Bydd rheoli cronfeydd mewn rhannau eraill o'r DU yn galluogi Cyllid Cymru i wella ei hygrededd a'i enw da yn y sector ac felly'n gwella ei siawns o sicrhau buddsoddiad o'r sector preifat ar gyfer cronfa newydd yng Nghymru. Mae sicrhau cronfeydd ychwanegol yn allweddol i gynaliadwyedd tymor hwy Cyllid Cymru o ran darparu cyllid i fusnesau yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o wir o ran cronfa JEREMIE gwerth £150m sy'n rhoi'r gorau i fuddsoddi yn 2013/14, h.y. yr un pryd ag y daw'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol i ben.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa drafodaethau y mae ei swyddogion wedi'u cael ag uwch reolwyr Bosch yn yr Almaen ynghylch cau eu safle ym Meisgyn. (WAQ55485)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

Bosch is Relationship Managed and my officials work closely with the company to identify all levels of possible support that may be available.

My officials and I have held joint discussions with Bosch’s senior management from Germany. We have discussed the reasons behind the review and the implications for the Cardiff site. The Bosch site is a non-assisted area for financial support in terms of capital investment, but we have thoroughly investigated other support which could be offered to Bosch, such as financial support towards research and development of a new product. We have outlined the match funded support that was given over a 2 year period to a training programme to enhance the skills of the employees and efficiency at the plant.

We have also discussed the support that our ReAct Programme could provide to the affected employees, should the final Bosch Board decision be to phase out production at the plant. These discussions will be ongoing, subject to the final decision on the future of the plant.

My officials have also held several meetings with Bosch Management regarding the closure of the Miskin Plant between September 2009 and January 2010.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o weithwyr sydd wedi colli eu swyddi oherwydd bod cwmnïau yn cau ac sydd wedi dod o hyd i waith newydd drwy gynlluniau cyflogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Rhondda Cynon Taf er mis Ionawr 2007. (WAQ55486) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Rydym yn parhau i gynnig cymorth i bobl ddod o hyd i waith drwy ein rhaglen ReAct. Gwnaethom sicrhau bod £2m yn ychwanegol ar gael i ReAct yn ystod 2009/2010. Dechreuodd rhaglen gyfredol ReAct ar 1af Hydref 2008 ac ers y dyddiad hwnnw mae wedi helpu 11,581 o unigolion ledled Cymru a 1,104 o unigolion a 125 o fusnesau yn Rhondda Cynon Taf. Ni allwn ddadansoddi data ar lefel awdurdod lleol ar gyfer ReAct yn ystod 2007. Dangosodd adroddiad gwerthuso diweddaraf ReAct fod 80% o unigolion a oedd wedi cael budd o ReAct yn cael eu cyflogi ar adeg yr arolwg gyda 3% yn ymgymryd â dysgu pellach.

Nid ydym yn casglu gwybodaeth yn ganolog o ran diswyddiadau sy'n ymwneud â chau cwmnïau. Fodd bynnag, rhwng mis Rhagfyr 2006 a mis Rhagfyr
2009 cynyddodd cyfradd y bobl a oedd yn ddi-waith ac yn hawlio budd-dal (hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith) yn Rhondda Cynon Taf 2.5 y cant i 5.0 y cant o'r boblogaeth o oedran gwaith (7,200), sef cynnydd mwy na Chymru gyfan (i fyny 1.9 y cant i 4.3 y cant) a'r DU (i fyny 1.7 y cant i 4.1 y cant).

Rhwng y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2007 a'r flwyddyn hyd at fis Mehefin 2009, cynyddodd cyfradd diweithdra ILO yn Rhondda Cynon Taf 4.4 y cant i 9.7 y cant o'r boblogaeth 16 oed a throsodd (10,300). Mae hwn yn gynnydd mwy na Chymru gyfan (i fyny 2.2 y cant i 7.7 y cant) a'r DU (i fyny 1.5 y cant i 6.8 y cant)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru'r cyfarfodydd y mae ef neu ei swyddogion wedi'u cynnal gydag uwch reolwyr Bosch yn yr Almaen ac a wnaiff ddarparu manylion pwy oedd yn bresennol ym mhob cyfarfod. (WAQ55487)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

My officials and I have attended two meetings with senior Bosch management from Germany since the 17 September 2009 announcement, which outlined the review being carried out throughout the Bosch Group, including the Cardiff plant.

The first meeting was held on 20 October 2009. The attendees included the First Minister and myself, a private office official, a policy official and the following Bosch representatives:

- Stefan Asenkerschbaumer, President of Bosch Starter Motors and Generators Division, based in Germany;

- Klaus Peter Fouquet, President of Bosch Ltd UK, based in Germany;

- Jens-Knut Fabrowsky, Executive Vice President Starter Motors and Generators, based in Germany;

- Adam Willmott, Senior Vice President, Technical Plant Manager Cardiff Plant and;
- Martin Ziegler, Senior Vice President, Commercial Plant Manager Cardiff Plant.

The second meeting took place on 14 January 2010. Attendees included myself, a private office official, a policy official, a member of the Assembly Government Press Team, two Special Advisers and the following Bosch representatives:

- Stefan Asenkerschbaumer, President of Bosch Starter Motors and Generators Division;

- Jens-Knut Fabrowksy, Executive Vice President Manufacturing of the Starter Motors and Generators Division; and

- Martin Ziegler, Senior Vice President and Commercial Plant Manager, Cardiff Plant.

In addition, seven meetings have been held between my officials and Bosch Management regarding the issue. The dates of these meetings are as follows:

21 September 2009
8 October 2009
9 November 2009
11 November 2009
19 January 2010
20 January 2010
25 January 2010.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Ym mha rai o raglenni Adran y Gweinidog y bu tanwariant ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, ac o faint ym mhob achos. (WAQ55495) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Ym mha rai o raglenni Adran y Gweinidog y bu tanwariant ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, ac o faint ym mhob achos. (WAQ55491) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Ac ystyried yr adroddiad gan Ymddiriedolaeth Nuffield sy'n dangos bod mwy o arian yn cael ei wario ar y GIG yng Nghymru nag yn Lloegr, ond bod yr allbynnau yn is, a fydd y Gweinidog yn ymchwilio i wastraff yn y GIG. (WAQ55488)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Mai 2011***

Mae adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield yn seiliedig ar ddata sydd yn fwy na thair blwydd oed. Mae'n amhosibl dod i unrhyw gasgliadau ystyrlon gan ddefnyddio hen ddadansoddiad o'r fath. Mae Prif Weithredwr y GIG, Paul Williams, yn gweithio gyda'r GIG i ddatblygu Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu ac Ariannol Pum Mlynedd a fydd yn nodi sut y caiff gwasanaethau i gleifion eu gwella ymhellach o fewn cyd-destun ariannol heriol. Mae'r GIG wedi datblygu'n sylweddol o ran safon, canlyniadau ac effeithlonrwydd bob blwyddyn, a byddaf yn parhau i ddwyn y GIG i gyfrif am ddarparu'r gwerth gorau â'r adnoddau sydd ar gael.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Ym mha rai o raglenni Adran y Gweinidog y bu tanwariant ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, ac o faint ym mhob achos. (WAQ55490) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Ym mha rai o raglenni Adran y Gweinidog y bu tanwariant ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, ac o faint ym mhob achos. (WAQ55497) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Ym mha rai o raglenni Adran y Gweinidog y bu tanwariant ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, ac o faint ym mhob achos. (WAQ55493) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Ym mha rai o raglenni Adran y Gweinidog y bu tanwariant ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf, ac o faint ym mhob achos. (WAQ55489) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.